

POLISI CAFFAEL			
Adran	Cyllid		
Awdur	Cynghorydd Caffael		
Awdurdodwyd gan:	Cyfarwyddwr Cyllid		
Gweithredir gan:	Cynghorydd Caffael		
Cyfeirnod y Polisi:	POFIN1819102		
Polisi blaenorol:	POFIN1415083		
Fersiwn Rhif:	1	Pwyllgor Cymeradwyo:	Bwrdd yr Is-ganghellor Pwyllgor Archwilio
Dyddiad cymeradwyo:	21/9/18	Rhif y cofnod:	18.14.01.01 18.16
Statws:	Cymeradwywyd	Dyddiad gweithredu:	Medi 2018
Cyfnod cymeradwyo:	3 blynedd	Dyddiad adolygu:	Medi 2021
Cwblhawyd proses sgrinio asesu'r effaith ar gydraddoldeb i gynorthwyo gyda diogelu yn erbyn gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb.			
Ystyriwyd effaith y Polisi ar y Gymraeg a'r ddarpariaeth Gymraeg yn y Brifysgol.			
✓			

Trosolwg

Er mwyn cyflawni ei chenhadaeth graidd – darparu ar gyfer dysgwyr – mae'n ofynnol i Brifysgol Glyndwr gael cefnogaeth nifer fawr o gyflenwyr allanol. Yn 2017 / 2018 gwariodd y brifysgol tua £10m ar eitemau ac eithrio cyflogau, sy'n cyfateb i oddeutu 30% o gostau cynnal y Brifysgol.

Caffael yw'r broses o gael nwyddau, gwaith a gwasanaethau trwy wariant ar eitemau ac eithrio cyflogau.

Diffiniad Caffael gan "Procuring the Future" 2006 yw:

"Y broses lle bo sefydliadau'n bodloni eu hanghenion am nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn modd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail oes gyfan o ran cynhyrchu buddion nid yn unig i'r sefydliad, ond i'r gymdeithas a'r economi hefyd, tra'n lleihau'r niwed i'r amgylchedd."

Mae'r broses gaffael yn cwmpasu'r gylchred oes gyfan, o adnabod yr anghenion i ddiwedd cytundeb neu ddiwedd oes ddefnyddiol ased.

Mae gan y gwasanaeth caffael dair prif nod:

- Y cyntaf yw cefnogi'r gweithgarwch caffael sy'n digwydd, i sicrhau cael y gwerth gorau am arian wrth brynu ei nwyddau, gwasanaethau a'i gytundebau ei hun a sicrhau dilyn arfer orau caffael bob amser.
- Ail ran y rôl yw cynghori'r Bwrdd Llywodraethwyr, sy'n gyfrifol am sicrhau bod cronfeydd cyhoeddus yn cael eu gwario'n briodol a sicrhau gwerth am arian. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am fonitro ac adrodd wrth Lywodraeth Cymru o ran cyflawni targedau arbedion a bennwyd gan Brifysgol Glyndŵr.
- Y trydydd yw sicrhau bod gweithgareddau caffael y Brifysgol yn cydymffurfio gyda gofynion cyfreithiol bob amser.

Yn ychwanegol at y nodau allweddol hyn mae'r gwasanaeth Caffael hefyd yn cefnogi ac yn cyfrannu at y Weledigaeth a'r Ymrwymadau a nodir yn Fframwaith Strategol 2015 – 2020 a'r holl strategaethau ac amcanion busnes dilynol a ddatblygwyd i'w gefnogi, megis Campws 2025 ac amcanion amgylcheddol, cynaliadwy a moesegol y Brifysgol.

Arweinyddiaeth a Llywodraethu

Y Bwrdd Llywodraethwyr, y Tîm Gweithredol a'r staff sy'n berchen ar y ddogfen polisi caffael hon.

Rhaid i bolisiau, strategaeth a gweithdrefnau'r Bwrdd gyd-fynd gyda'r Memorandwm Ariannol a gyflwynwyd iddo gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru hefyd.

Pwrpas

Pwrpas y polisi caffael hwn yw ystyried a chynnwys yr egwyddorion allweddol a nodir yn Natganiad Polisi Caffael Cymru yn gyntaf.

Mae hefyd wedi'i ddylunio i gynorthwyo gyda chyflawni'r nodau strategol a nodir yn y Strategaeth Ariannol 2018 – 2025 ynghylch cynaliadwyedd, effeithlonrwydd, uniondeb ac atebolrwydd ariannol a gwerth am arian a sicrhau cadw at y gofynion a nodir yn Adran 8 – Gwariant yn Rheoliadau Ariannol 2015/2016.

Mae'r Polisi Caffael hwn yn berthnasol i ac yn rhwymol i'r holl gyflogeion mewn unrhyw sefyllfa lle maent yn ymwneud â phroses gaffael, p'un ai fel archebwr, prynwr neu'r rhai sy'n dilysu neu'n awdurdodi taliadau.

Mae cadw at y Polisi yn gyfrifoldeb unigol a chorfforaethol.

Mae'r Polisi hwn yn ddogfen gyhoeddus – gellir ei ddyfynu mewn Adroddiadau Blynyddol, Adolygiadau Ariannol a Gweithredol, gwybodaeth i gyfranddeiliaid/rhanddeiliaid ac mae ar gael yn rhwydd i ddarpar gyflenwyr. Mae'n cadarnhau i'r rheolwyr a'r staff, i gyflenwyr a chontractwyr presennol a darpar gyflenwyr a chontractwyr, i gwsmeriaid, i reoleiddwyr y llywodraeth a rheoleiddwyr eraill ac i randdeiliaid yn y gymuned ehangach y cyfrifoldebau allweddol a ddefnyddir gan y Brifysgol wrth gaffael a llunio cytundebau.

Dull:

Mae Prifysgol Glyndŵr yn gweithredu strwythur caffael datganoledig ac mae'r cynghorydd caffael yn darparu arbenigedd, cyngor a chymorth caffael proffesiynol i'r holl arweinyddion a deilyddion cyllideb ar draws y busnes er mwyn sicrhau bodloni anghenion y busnes trwy

brynu nwyddau, gwaith a gwasanaethau. Trwy gynyddu proffil caffael yn y Brifysgol ac ymgysylltu gyda'r rhai â chyfrifoldeb datganoledig i brynu, nod y gwasanaeth yw cefnogi cenhadaeth graidd y Brifysgol trwy reoli costau, lleihau risgiau ac annog partneriaethau, cynadliadwyedd, gwerth am arian ac arloesedd trwy'r gadwyn gyflenwi gyfan.

Cyfreithlondeb

Bydd gweithgareddau Caffael y Brifysgol yn parchu ac yn cydymffurfio'n llawn gyda'r holl ddeddfau a rheoliadau sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig, yn ychwanegol at yr holl ddeddfau, cyfarwydddebau a rheoliadau Undeb Ewropeaidd perthnasol (yn cynnwys y rhai sy'n llywodraethu Caffael Cyhoeddus, lle bo'n briodol).

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gymhwyso deddfau a rheoliadau'n deg ac effeithiol.

Cyfrifoldebau Allweddol:

1. Adnoddau Proffesiynol

Mae Prifysgol Glyndŵr wedi mabwysiadu'r meincnod dechreuol o isafswm o un swyddog caffael proffesiynol am bob £10m o wariant. Bydd y Cynghorydd Caffael yn sicrhau bod gwariant caffael yn ddarostyngedig i lefel briodol o fewnbwn a dylanwad proffesiynol.

Er mwyn cefnogi'r strwythur Caffael datganoledig rhaid i staff sy'n cyflawni swyddogaethau prynu dderbyn hyfforddiant diogonol.

2. Sicrhau Gwerth am Arian

Yn gyffredin ystyr Gwerth am Arian yw cyfuniad o:

Economi:

Y gallu i gael adnoddau dynol a materol am y gwerth gorau, gan ystyried y pris a'r ansawdd – “gwneud pethau am y pris gorau”.

Effeithlonrwydd:

Y gallu i wneud rhywbeth yn dda neu gyflawni amcan heb wastraffu egni nac ymdrech – “gwneud pethau y ffordd iawn”.

Effeithiolrwydd:

Y gallu i gyflawni'r canlyniadau gorau/mwyaf dymunol – “gwneud y pethau iawn”.

Mae Prifysgol Glyndŵr yn cydnabod ei chyfrifoldeb i sicrhau Gwerth am Arian o'i holl weithgareddau, yn cynnwys Caffael. Yn benodol, ceir dyletswydd gofal i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario at y dibenion a fwriadwyd ynghyd â sicrhau gwerth da am arian.

Bydd y Brifysgol yn sicrhau'r gwerth gorau am arian ar gyfer pob agwedd gwariant trwy fonitro ffynonellau, cyflenwadau a pherfformiad. Mae gwerth am arian yn cyfateb i fesur ansawdd yn ogystal â phris. Yn ychwanegol at y pris, bydd y Brifysgol yn ystyried costau oes gyfan o ran costau caffael, costau defnyddio, costau cynnal a chadw a chostau diwedd oes er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn sicrhau'r gwerth am arian uchaf posibl.

Mae gan y Brifysgol broses wedi'i diffinio'n glir ar gyfer deilyddion cyllideb o ran trefnu gwariant, ymrwymo i a derbyn nwyddau a gwahanu dyletswyddau. Mae'r rheolau ynghylch lefelau gwariant a chystadleuaeth wedi'u nodi'n fanwl yn y Rheoliadau Ariannol.

3. Ystyried yr effaith Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol

Ystyrir Gwerth am Arian fel y cyfuniad optimwm o gostau oes gyfan o ran nid yn unig cynhyrchu arbedion effeithlonrwydd a deilliannau ansawdd da i'r sefydliad, ond hefyd o fudd i'r gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd, yn awr ac yn y dyfodol.

Bydd y Brifysgol yn ymdrechu i gaffael mewn modd sy'n ymwybodol o'r amgylchedd ac yn gynaliadwy, gan ystyried ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol ochr yn ochr â ffactorau ariannol ac ansoddol wrth werthuso tendrau. Mae Fforwm Cynaliadwyedd y Brifysgol yn ymwneud â hyn i sicrhau bod y brifysgol yn bodloni gofynion cyfreithiol a strategol.

Wrth geisio caffael mewn modd sy'n gynaliadwy'n amgylcheddol, bydd y Brifysgol yn:

- i. Annog staff i adolygu defnyddio nwyddau a deunyddiau a mabwysiadu'r arfer orau (Lleihau, Ailddefnyddio, Ailgylchu) yn eu penderfyniadau prynu i gynorthwyo i leihau'r effeithiau amgylcheddol.
- ii. Cydymffurfio gyda'r holl ddeddfwriaeth caffael ac amgylcheddol perthnasol.
- iii. Annog prynu nwyddau gyda'r isafswm o ddeunyddiau pecynnu. Os na ellir osgoi hyn, dylai'r deunyddiau pecynnu fod wedi eu gwneud o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu neu y gellir eu hailgylchu.
- iv. Sefydlu polisïau a chanllawiau unigol ar gyfer cynhyrchion sy'n cael effaith amgylcheddol arwyddocaol.
- v. Hyrwyddo prynu cynhyrchion sy'n cael yr effaith isafswm ar yr amgylchedd wrth eu defnyddio (e.e. gwydn, defnyddio ynni'n effeithlon, nwyddau y gellir eu hailddefnyddio neu eu hail-lenwi ac ati).
- vi. Annog prynu cynhyrchion y gellir eu hailgylchu neu eu gwaredu gyda'r isafswm o niwed i'r amgylchedd.
- vii. Eithrio cynhyrchion sy'n niweidio'r amgylchedd lle bo cynhyrchion amgen hyfyw ar gael.
- viii. Gwneud penderfyniadau caffael ar sail cydbwysedd rhwng ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.
- ix. Ymchwilio'n flynyddol i'r gwariant ar gaffael bwyd a defnyddio'r wybodaeth hon i gynyddu prynu cynhyrchion bwyd cynaliadwy ac wedi'u cynhyrchu'n lleol.
- x. Darparu hyfforddiant ac arweiniad i annog staff sy'n ymwneud â phrynu i fabwysiadu polisïau prynu mwy cynaliadwy i leihau costau ac effaith amgylcheddol y nwyddau a'r gwasanaethau a brynwn.
- xi. Sicrhau bod dogfennau tendro yn adlewyrchu materion cynaliadwyedd ar bob cam, yn cynnwys y fanyleb, y cyfleuster i gynnig dewisiadau amgen sy'n ystyriol i'r amgylchedd, meini prawf gwerthuso a rheoli contractau.
- xii. Ymchwilio i wariant y Brifysgol er mwyn nodi, a lle bo'n bosibl lleihau effeithiau amgylcheddol.
- xiii. Annog Mentrau Bach a Chanolig a chyflenwyr lleol i ymgeisio am waith priodol.
- xiv. Hyrwyddo prynu cynhyrchion Masnach Deg.
- xv. Gweithio gyda chyrrff eraill i rannu profiadau a mabwysiadu'r arferion gorau.
- xvi. Hysbysu'r holl staff am y polisi hwn i hyrwyddo ymwybyddiaeth ynghylch caffael cynaliadwy.

Wrth geisio caffael mewn modd sy'n gynaliadwy'n gymdeithasol, bydd y Brifysgol yn:

- i. Ymrwymo i fod yn aelod o Weithgor Cod Ymarfer Consortiwm Pwrcasu Addysg Uwch Cymru ar Gyflogaeth Foesegol yn y Gadwyn Gyflenwi a bydd yn parhau i gyfrannu at ei waith a mabwysiadu'r polisi a gytunir.
- ii. Cefnogir egwyddorion ac amcanion y strategaeth Campws 2025 o ran cydnabod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac uchafu'r buddion cymunedol i'r myfyrwyr a'r gymuned leol.

4. Annog Cydweithredu

Mae Prifysgol Glyndŵr yn aelod llawn o Gonsortiwm Caffael Prifysgolion y Gogledd Orllewin ac yn Aelod Cyswllt Consortiwm Caffael Addysg Uwch Cymru a Fforwm Caffael Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Bydd y gwasanaeth caffael, trwy ei waith gyda Chonsortiwm Pwrcasu Prifysgolion y Gogledd Orllewin, Consortiwm Pwrcasu Addysg Uwch Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach, yn cydweithredu pryd bynnag a lle bynnag y bo'n bosibl i ddefnyddio contractau a gafodd eu tendro a'u dyfarnu gan gyrff cyhoeddus eraill, a thrwy hynny ddefnyddio dulliau a manylebau safonol i leihau dyblygu, arbed ar gostau ymarfer caffael llawn a gwella'r potensial i sicrhau prisiau mwy ffafriol trwy gyfuno grym prynu.

Bydd y Brifysgol yn cydweithredu hefyd trwy rannu cyngor, arweiniad a phrofiad i gynorthwyo cydweithwyr ar draws y sector cyhoeddus, gyda phwyslais penodol ar y sector Addysg Uwch.

Mae gan Gynghorydd Caffael y Brifysgol gysylltiadau gyda sefydliadau caffael lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau bod lefelau cydweithredu'r Brifysgol yn parhau i gynyddu trwy rannu ystod eang o brofiadau ac arbenigedd.

Bydd y gwasanaeth caffael yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau, gyda phwyslais penodol ar gynnal trefniadau cydweithredol sy'n bodoli eisoes a datblygu rhai newydd ar draws y sector cyhoeddus. Bydd cymryd rhan mewn Cytundebau Fframwaith yn hyrwyddo ac yn gwreiddio arferion gorau a sicrhau cyflawni gwerth am arian ar draws y brifysgol.

5. Creu cystadleuaeth agored a hygyrch

Bydd Prifysgol Glyndŵr yn mabwysiadu dull cyfrannol at gaffael, wedi'i seilio ar risgiau, er mwyn sicrhau bod cyfleoedd cytundebau yn agored i bawb ac nad yw cyflenwyr llai, lleol, yn cael eu hallgau o ennill cytundebau'n unigol, fel consortia neu trwy rolau yn y gadwyn gyflenwi.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd ei gyflenwyr a'r farchnad. Bydd yn adolygu ansawdd ei gynlluniau rheoli cyflenwi a datblygu er mwyn gwella'r berthynas gyda chyflenwyr i fodloni anghenion y sefydliad.

Er mwyn bodloni Rheolau Sefydlog Llywodraeth Cymru bydd y Brifysgol hefyd yn cynyddu ac yn safoni defnyddio gwefan Gwerthwch i Gymru ar gyfer hysbysebu unrhyw gyfleoedd tendro a datblygu defnyddio'r pecyn asesu SQuID ar gyfer caffael perthnasol.

Hysbysir yr holl gyflenwyr am delerau talu'r Bwrdd. Cynhelir arfarniad ariannol cyflenwyr mewn modd teg a phriodol, mewn cyfrannedd gyda gwerth a risg yr eitemau neu'r gwasanaeth sy'n cael ei gaffael.

6. Symleiddio Prosesau Safonol

Ar sail cyflwyno cofrestr contractau, nod y Gwasanaeth Caffael yw cynnal trafodaethau cyn y dyddiad adnewyddu gyda Rheolwyr Contract, i ganiatáu amser i ddatblygu strategaeth ar gyfer pob ymarfer caffael. Lle nad oes trefniadau cydweithredol ar gael i'w defnyddio, bydd y Brifysgol yn tendro ac yn dyfarnu ei gcontractau ei hun. Bydd y Cynghorydd Caffael yn gweithio gyda phartneriaid busnes ariannol a deilyddion cyllideb i fynd ar ôl llif dynamig gwybodaeth o ran darpar bryniannau.

Rhaid i'r prosesau caffael a ddefnyddir at ddibenion tendro gydymffurfio a bod yn agored a thryloyw, ac wedi eu seilio ar ddulliau safonol a defnyddio systemau cyffredin sy'n lleihau cymhlethdod, costau, amserlenni a gofynion i gyflenwyr mewn modd priodol.

Bydd pob ymarfer caffael yn cynnwys, fel isafswm:

Strategaeth Prynu:

Bydd gan bob ymarfer caffael gwerth uchel / risg uchel a gyflawnir gan y Brifysgol ei strategaeth prynu ei hun. Bydd yn dangos dealltwriaeth o'r farchnad, yn lleihau'r risg i'r cyflenwad lle bynnag y bo'n bosibl, ystyried goblygiadau cyfreithiol pob caffael yn nhermau cydymffurfio gyda Chyfarwyddbau Caffael Ewropeaidd, yn ceisio ychwanegu gwerth ac yn ystyried yr isod, fel isafswm:

Defnyddio Caffael Electronig

Mae Prifysgol Glyndŵr wedi ei chofrestru fel defnyddiwr gwefan 'Gwerthwch i Gymru' y Llywodraeth; hon yw'r wefan gaffael genedlaethol ar gyfer prynwyr sector cyhoeddus Cymru. Ei nod yw dod â'r sector cyhoeddus cyfan a'i gyflenwyr at ei gilydd. Mae cyfleoedd tendro gwerth isel ac uchel ar gael i gyflenwyr ar-lein. Mae'r wefan yn meddu ar gyfoeth o wybodaeth ac arweiniad caffael hefyd, sydd o fudd i'r Brifysgol. Bydd y Brifysgol yn hysbysebu ei holl gyfleoedd tendro priodol ar y wefan hon, yn ogystal â bodloni gofynion cyfreithiol caffael cyhoeddus trwy ddefnyddio gwefan a chyfnodolyn OJEU – Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer tendrau sy'n uwch na'r trothwyon a bennir yn flynyddol.

Dogfennau Caffael

Bydd y Brifysgol yn cynhyrchu manylebau wedi'u hysgrifennu'n glir, a bydd yn caniatáu amser rhesymol i gyflenwyr gyflwyno eu tendrau ysgrifenedig, yn gwneud y meini prawf gwerthuso a dyfarnu yn glir a dealladwy, gwerthuso'r holl geisiadau ar sail unfath ac yn darparu sylwadau adeiladol i dendrwyr aflwyddiannus.

Pecyn Mesur yr Effeithiau

Bydd y Brifysgol yn adolygu ac yn ystyried defnyddio pecynnau perthnasol ar gyfer pob caffael, megis y Pecyn Asesu Risg Cynaliadwyedd (>£25,000) a'r Pecyn Mesur yr Effeithiau Cymunedol (> £1m).

Costau Oes Gyfan

Lle bo'n briodol bydd y Brifysgol yn ystyried defnyddio modelau cost oes gyfan ar gyfer pob ymarfer caffael, ac yn dyfarnu'r cytundeb i'r cyflenwr sy'n cyflwyno'r tendr mwyaf manteisiol yn economaidd yn unol â'r meini prawf gwerthuso a dyfarnu a nodir yn y dogfennau tendro (e.e. costau oes gyfan, lefelau gwasanaeth, ansawdd, rhinweddau technegol).

Bydd y gwasanaeth Caffael yn sicrhau bod yr holl weithdrefnau a phrosesau caffael eraill yn:

cydymffurfio gyda'r holl ddeddfwriaeth, polisiau a chanllawiau perthnasol ymateb i anghenion y Brifysgol
agored a theg i'r holl gyflenwyr, lleol a chenedlaethol
darparu gwerth am arian
hyrwyddo'r safonau moesegol ac uniondeb ariannol uchaf
ystyried cynaliadwyedd ac effaith ar yr amgylchedd
proffesiynol
diwastraff
cefnogi enw da busnes effeithlon
lleihau risg cytundebol
darparu data ac adroddiadau perthnasol ac ystyrlon

Bydd y gwasanaeth caffael yn adolygu ei weithdrefnau cyfredol yn flynyddol i sicrhau eu bod bob amser yn addas i'w pwrpas, ac yn eu symleiddio lle bynnag y bo'n bosibl.

7. **Cofnodi a dadansoddi data**

Rhan o'r gwasanaeth caffael yw dadansoddi gwariant y Brifysgol gyda chyflenwyr ar nwyddau, gwasanaethau a chontractau, i ddeall graddfa a phwysigrwydd gweithgarwch caffael o ran maint, natur yr hyn a brynir, risg y farchnad a risg busnes. Bydd y dadansoddi hwn yn hysbysu ar hyd pa lwybrau y bydd y swyddogaeth gaffael yn datblygu ac yn darparu'r caffael gwerth gorau.

Bydd gwasanaeth caffael y Brifysgol yn gweithredu system mesur arbedion, a fydd yn cofnodi arbedion caled a meddal a wnaed yn erbyn pob cytundeb wedi'i dendro.

8. **Cyflwyno dulliau Mesur a Gwerthuso'r Effaith**

Yn unol ag arferion rheoli da, dylai perfformiad a deilliannau caffael gael eu monitro i gefnogi gwella parhaus, a rhannu enghreifftiau o arfer dda ac arfer wael yn agored.

Mae risgiau cynhenid sy'n ymwneud â chaffael y mae'n rhaid eu monitro er mwyn sicrhau gwella parhaus, sef:

- Prynu diangen
- Methu â sicrhau Gwerth Gorau
- Caffael aneconomaidd
- Methiant cyflenwr i ddarparu'r nwyddau/gwasanaethau
- Ansawdd y gwasanaethau a'r contractau caffael yn is na'r safon ddisgwyliedig
- Twyll
- Methu cyfleoedd
- Methu â lleihau'r effaith ar yr amgylchedd

Nid yw'r rhestr uchod yn holl-gynhwysol, ond mae'n cynrychioli'r sail ar gyfer fframwaith monitro ac adrodd yn ôl i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â chaffael i'r isafswm, yn ogystal â chofnodi'r deilliannau cadarnhaol cyfatebol.

9. Gwneud cynnydd – Datblygu a Gweithredu Polisi

Bydd y Brifysgol yn ystyried defnyddio polisi sy'n cefnogi cyflawni'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru fel a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015).

Mae adroddiad Diamond 2011 yn gwneud nifer o argymhellion ar gyfer gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd caffael yn y sector addysg uwch. Mae Prifysgol Glyndŵr wedi cynnwys yr argymhellion cytunedig yn ei dogfennau polisi.

10. Sicrhau Cydymffurfio

Bydd archwilwyr mewnol y Brifysgol yn cynnal adolygiadau cyfnodol ar y swyddogaeth gaffael. Bydd yr archwilwyr yn gwirio ei bod yn cydymffurfio gyda gweithdrefnau mewnol a Chyfarwyddbau Caffael y Deyrnas Unedig ac Ewropeaidd, yn ogystal ag arferion gorau caffael.

Mae Polisi Caffael Cyhoeddus Cymru yn cynnwys gofyniad i gynnal Gwiriadau Ffitrwydd Caffael blynyddol a chyflwyno adroddiad ar yr argymhellion a'r cynlluniau gweithredu yn deillio o hynny i Lywodraeth Cymru.

Bydd y Gwasanaeth Caffael yn sicrhau bod y gweithredoedd a'r argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiadau hyn yn cael eu cyflawni.

Ystyriaethau eraill:

Deddf yr Iaith Gymraeg a'r Cynllun Iaith

Bydd y Brifysgol yn nodi mewn dogfennau tendro a chontractau unrhyw ofynion penodol o ran defnyddio'r Gymraeg, a bydd yn monitro cyflawni unrhyw ofynion o'r fath gan y contractwr.

Lle bo'r Brifysgol yn defnyddio ymgynghorwyr allanol i gynnal astudiaethau neu adolygiadau yn y Sector Addysg Uwch yng Nghymru, bydd yn nodi'r gofynion o ran darparu gwasanaethau Gymraeg neu ystyried materion y Gymraeg fel bo'n briodol i'r prosiect penodol dan sylw.

Lle bo'n ofynnol, yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg, bydd gwahoddiadau i dendro yn cael eu cyhoeddi yn Saesneg ac yn Gymraeg, ac ni fydd y fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Hysbysir tendrwyr y gellir cyflwyno tendrau yn Gymraeg ac na fydd y tendr yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynwyd yn Saesneg.

Rhyddid Gwybodaeth

Sefydlwyd cofrestr Contractau ac mae ar gael, dan ymrwymiad Rhyddid Gwybodaeth y Brifysgol, i'r cyhoedd ar wedudalennau Cyllid y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'n rhestru'r holl brif contractau wedi'u tendro a'u dyfarnu.

Bydd y Brifysgol yn tynnu sylw'r holl dendrwyr a chyflenwyr at ein dyletswyddau, fel a nodir dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, y Cod Ymarfer Statudol ar Gyflawni Swyddogaethau Awdurdodau Cyhoeddus a gyflwynwyd dan adran 45 y Ddeddf Rhyddid

Gwybodaeth a'r Cod Ymarfer Statudol Rheoli Cofnodion a gyflwynwyd dan adran 46 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Moeseq

Bydd gwasanaeth caffael y Brifysgol yn mabwysiadu Cod Moeseq Proffesiynol y Sefydliad Siartredig Pwrcasu a Chyflenwi. Mae'r foeseq yn cwmpasu nifer o egwyddorion, yn cynnwys cynnal y safon integriti uchaf posibl yn ei holl berthnasodded busnes.

Cydraddoldeb

Bydd y Brifysgol yn sicrhau, trwy ei gweithdrefnau caffael, bod contractwyr ac is-gontractwyr sy'n darparu gwasanaeth i'r Brifysgol yn ymwybodol o'u hyrwymadau i barchu ymrwymiad y Bwrdd i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hybu cyfleoedd cyfartal a pherthynas dda rhwng pobl o wahanol grwpiau hil. Nodir yr ymrwymadau hyn yn ei Pholisi Cydraddoldeb Hiliol ac ychwanegir ato wrth i ragor o bolisiâu a chynlluniau gael eu datblygu i fodloni cyfrifoldebau statudol.

Mae'r Brifysgol yn croesawu tendrau gan bob rhan o'r gymuned. Bydd y Brifysgol yn hyrwyddo gweithdrefnau sy'n deg ac yn ddi-ragfarn.

Iechyd a Diogelwch

Bydd y Brifysgol yn gofyn am, ac yn asesu lle bo'n berthnasol, wybodaeth Iechyd a Diogelwch gan gyflenwyr cyn dyfarnu'r cytundeb.